OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 565

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## RHAN 6

### Darpariaethau terfynol

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

**34.** Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio drwy roi'r paragraff a ganlyn yn lle paragraff 10 o Atodlen 1—

> "**10.**—(1) Ni chaiff buddiolwr ddechrau neu gyflawni prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro yn groes i reoliadau 4 neu 8 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).
>
> (2) Ni chaiff buddiolwr fynd yn groes i hysbysiad stop a gyflwynwyd iddo o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).
>
> (3) Ni chaiff buddiolwr, heb esgus rhesymol, fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion hysbysiad adfer a gyflwynir iddo o dan reoliad 26 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).
>
> (4) Yn y paragraff hwn, mae i "prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin" ("*project on semi-natural and/or uncultivated land*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).
>
> (5) Yn y paragraff hwn, ystyr "y Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth)" ("*the EIA (Agriculture) Regulations*") yw Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017."

**Dirymu**

**35.** Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007(**2**) wedi eu dirymu.

**Darpariaethau trosiannol**

**36.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn darparu ar gyfer trin hysbysiadau penodol a gyflwynwyd o dan Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae hysbysiad stop a gyflwynir yn unol â rheoliad 24 o Reoliadau 2007 i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau hyn,

(**1**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328).
(**2**) O.S. 2007/2933 (Cy. 253).

ac mae rheoliadau 25, 28 a 29 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gamau gorfodi a gymerir mewn cysylltiad â thorri'r hysbysiad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae hysbysiad adfer a gyflwynir yn unol â rheoliad 26 o Reoliadau 2007 i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno yn unol â rheoliad 26 o'r Rheoliadau hyn, ac mae rheoliadau 27 i 29 yn gymwys i unrhyw gamau gorfodi a gymerir mewn cysylltiad â thorri'r hysbysiad.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (2) neu (3) yn effeithio ar unrhyw apêl a gyflwynir yn unol â rheoliad 30(2) o Reoliadau 2007 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.